Ministry of Justice

# Priodasau a Phartneriaethau Sifil yn yr Awyr Agored

## Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar Briodasau a Phartneriaethau Sifil yn yr Awyr Agored

Cyhoeddwyd yr ymateb hwn ar 15 Mawrth 2022

Ministry of Justice

# Priodasau a Phartneriaethau Sifil yn yr Awyr Agored

**Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.**

**Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/**

# Cynnwys

Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar Briodasau a Phartneriaethau Sifil yn yr Awyr Agored 1

**Cyflwyniad a manylion cyswllt 3**

Cwynion neu sylwadau 3

**Cefndir 4**

**Crynodeb o'r ymatebion 6**

**Ymatebion i gwestiynau penodol 9**

**Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg 29**

Asesiad Effaith 29

Cydraddoldeb 29

Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg 29

**Casgliad a'r camau nesaf 31**

**Egwyddorion ymgynghori 35**

**Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr 36**

Sefydliadau 36

Unigolion 41

Yn ôl nodwedd warchodedig 42

# Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgynghori ar gyfer y papur ymgynghori, Priodasau a Phartneriaethau Sifil yn yr Awyr Agored.

Bydd yn ymdrin â'r canlynol:

- cefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â'r **Tîm Polisi Priodasau** yn y cyfeiriad isod:

**Family Justice Policy Division**
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

**E-bost**: outdoorweddings@justice.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/

Gellir gwneud cais am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan outdoorweddings@justice.gov.uk.

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

# Cefndir

Cyhoeddwyd papur ymgynghori 'Priodasau a Phartneriaethau Sifil yn yr Awyr Agored' ar 20 Rhagfyr 2021. Roedd yn gwahodd sylwadau ar gynigion y Llywodraeth i barhau i ganiatáu priodasau sifil a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored ar safleoedd cymeradwy, ac i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored ar dir mannau addoli, ac yn gofyn am farn pobl ar hynny.

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi cynnig y Llywodraeth i barhau i ganiatáu seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored ar safleoedd cymeradwy. Mae'r polisi hwn eisoes wedi bod mewn grym ers 1 Gorffennaf 2021, pan gyflwynodd y Llywodraeth Offeryn Statudol (OS) yng nghanol pandemig Covid-19 er mwyn rhoi mwy o ddewis i gyplau o ran lleoliadau a chynorthwyo'r sector priodasau a phartneriaethau sifil. Fodd bynnag, dim ond tan 5 Ebrill 2022 y mae'r OS mewn grym. Felly, cynigiodd y Llywodraeth i osod OS pellach a fyddai'n dod i rym pan ddaw'r newidiadau hyn i ben ac yn parhau i ganiatáu'r seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil hyn yn yr awyr agored.

Mae'r papur hefyd yn nodi cynnig y Llywodraeth i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored ar dir mannau addoli, drwy orchymyn diwygio deddfwriaethol ('GDD') ar wahân. Byddai hyn yn caniatáu i gyplau sy'n dymuno cael priodasau crefyddol mewn mannau addoli, yn ogystal â chyrff crefyddol, elwa o fwy o hyblygrwydd a dewis tebyg i'r rheini sy'n dymuno cael priodasau sifil a phartneriaethau sifil ar safleoedd cymeradwy, ac yn helpu i hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd yn y sector priodasau.

Roedd yn gofyn am farn unrhyw un y mae'r cynigion yn effeithio arno, gan gynnwys perchnogion, ymddiriedolwyr a chynrychiolwyr eraill safleoedd cymeradwy neu ddarpar safleoedd cymeradwy; cynrychiolwyr awdurdodau sy'n gyfrifol am gymeradwyo safleoedd ac am gydymffurfio ag amodau sy'n berthnasol i gymeradwyo; cynrychiolwyr gwasanaethau cofrestru priodasau a phartneriaethau sifil sy'n eistedd mewn awdurdodau lleol; grwpiau crefyddol neu gyrff cymeradwy; perchnogion neu ymddiriedolwyr mannau addoli a gofrestrwyd ar gyfer gweinyddu priodasau; unigolion awdurdodedig wedi eu penodi dan Ddeddf Priodasau 1949; gweinyddion; unigolion, cwmnïau neu gyrff eraill sy'n gysylltiedig â'r sector priodasau a phartneriaethau sifil; cyplau sydd wedi cynnal, neu a oedd yn bwriadu cynnal, priodasau/partneriaethau sifil yn yr awyr agored yng Nghymru a Lloegr; ac unrhyw berson arall y mae hyn yn effeithio arno neu y gallai effeithio arno.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 24 Ionawr 2022 ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion, gan gynnwys sut y bu i'r broses ymgynghori ddylanwadu ar ffurf derfynol y polisi/cynnig yr ymgynghorwyd arno.

Diweddarwyd yr Asesiad o Effaith a ddaeth gyda’r ymgynghoriad er mwyn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae Asesiad o Effaith wedi ei ddiweddaru wedi ei atodi.

Mae'r papur ymateb Cymraeg i'w gael yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/outdoor-marriages-civil-partnerships/

Mae rhestr o’r ymatebwyr yn Atodiad A.

# Crynodeb o'r ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 204[1] o ymatebion unigol i'r papur ymgynghori. Dyma ddadansoddiad o'r gwahanol gategorïau o ymatebwyr:

| Dewis | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| **Perchennog, ymddiriedolwr neu gynrychiolydd safle cymeradwy, safle sy'n ceisio cael ei gymeradwyo, neu safle a allai geisio cael ei gymeradwyo** | 43 | 21.08% |
| **Cynrychiolydd gwasanaethau cofrestru priodasau sifil a phartneriaethau sifil mewn awdurdodau lleol** | 33 | 16.18% |
| **Unigolyn a gymerodd ran mewn seremoni priodas sifil/partneriaeth sifil yn yr awyr agored ar ôl newidiadau 1 Gorffennaf 2021, neu unigolyn sy'n gobeithio gwneud hynny yn y dyfodol** | 26 | 12.75% |
| **Gweinydd (*celebrant*)** | 25 | 12.25% |
| **Heb Ateb** | 17 | 8.33% |
| **Unigolyn arall neu gynrychiolydd cwmni neu gorff sy'n ymwneud â'r diwydiant priodasau a phartneriaethau sifil** | 15 | 7.35% |
| **Cynrychiolydd corff neu grŵp crefyddol** | 14 | 6.86% |
| **Unigolyn arall neu gynrychiolydd cwmni neu gorff y mae'r cynnig hwn yn effeithio arno neu y gallai effeithio arno.** | 14 | 6.86% |
| **Cynrychiolydd awdurdod sy'n gyfrifol am gymeradwyo safleoedd a/neu am gydymffurfio ag amodau sy'n ymwneud â chymeradwyaethau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ardaloedd awyr agored cysylltiedig** | 10 | 4.90% |
| **Unigolyn awdurdodedig o dan Ddeddf Priodasau 1949** | 6 | 2.94% |
| **Perchennog neu ymddiriedolwr neu fan addoli cofrestredig ar gyfer gweinyddu priodasau** | 1 | 0.49% |

[1] Derbyniwyd 606 o ymatebion e-bost gan gefnogwyr Humanists UK, ond gan fod y rhain yn union yr un fath, cânt eu cyfrif at ddibenion ystadegol yn unig fel un ymateb. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod ac wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r ymatebion e-bost hyn wrth baratoi'r ymateb hwn.

Ni atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn. Roedd rhai wedi ymateb yn uniongyrchol i’r cwestiynau, rhai wedi ateb rhannau o’r cwestiynau’n unig, ac roedd eraill wedi gwneud sylwadau mwy cyffredinol am gynnwys cyffredinol yr ymgynghoriad yn hytrach nag ar ein cynigion penodol. Fodd bynnag, cafodd pob ymateb ei ddarllen yn ei gyfanrwydd, ei gyfrif a’i gategoreiddio. Roedd ymatebion ar y cyd neu ymatebion ar ran grwpiau gydag aelodaeth fawr yn cael eu cyfrif unwaith. Nid yw’r ffigurau a nodir yma yn cynnwys yr ymatebion hynny nad oeddent yn mynd i’r afael â chwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad, ond roedd y dadansoddiad ehangach o adborth i’r ymgynghoriad yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd.

Cafodd yr ymatebion eu dadansoddi i gael tystiolaeth o effaith y cynigion, profiadau o’r OS dros dro ar gyfer seremoni sifil, a lefelau’r gefnogaeth ymysg grwpiau penodol.

Mae’r canlynol yn rhoi crynodeb byr o’r ymatebion:

- Roedd 96% o'r ymatebwyr o'r farn y dylai’r ddarpariaeth ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored ar dir safleoedd cymeradwy barhau ar ôl 5 Ebrill 2022 pan ddaw’r ddarpariaeth bresennol i ben.

- Y rhesymau a roddwyd o blaid parhau â’r ddarpariaeth drwy wneud OS pellach oedd parhau i roi dewis a hyblygrwydd i gyplau a lleoliadau; bod gwesteion, cofrestrwyr a staff lleoliadau yn teimlo’n fwy diogel yn yr awyr agored yn ystod pandemig Covid-19; ei fod yn atal yr angen am seremoni “ffug” yn yr awyr agored ac un gyfreithiol dan do a’i fod yn caniatáu i gyplau elwa o’r lleoliadau awyr agored sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr. Nododd y rhan fwyaf o leoliadau fod seremonïau awyr agored wedi bod yn boblogaidd a bod galw am seremonïau yn yr awyr agored yn ystod haf 2022.

- Mynegodd lleiafrif o’r ymatebwyr amheuon ynghylch yr angen am amodau, mewn perthynas â’r hyn sy’n cael ei ystyried yn lle addas ar gyfer seremoni (gan gynnwys ystyriaethau iechyd a diogelwch), yr angen i sicrhau bod seremonïau’n parhau i fod yn urddasol a bod yn rhaid i seremonïau symud dan do mewn tywydd gwael.

- Cafwyd sawl sylw gan leoliadau a chynrychiolwyr gwasanaethau cofrestru am fater roeddent wedi’i wynebu o ganlyniad i’r diffiniad o “dan do” a gyflwynwyd gan yr OS seremonïau sifil dros dro, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio pebyll mawr.

- Roedd 93% o'r ymatebwyr yn cefnogi cynnig y Llywodraeth i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored ar dir mannau addoli lle mae’n rhaid cynnal priodasau, cyn belled fod y corff crefyddol priodol yn caniatáu hynny. Er nad oedd unrhyw rwymedigaeth ddiwinyddol i gynnal priodas o fewn cwrtil eglwys, nododd grwpiau crefyddol bod yn rhaid i’r newidiadau hyn fod yn rhai o natur ganiataol, a bod angen i’r amddiffyniadau presennol i ddiogelu rhyddid crefyddol aros yn eu lle. Roedd yr

holl gynrychiolwyr o grwpiau crefyddol a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig hwn.

**Ymatebion e-bost y dyneiddwyr**

- Roedd y 606 o negeseuon e-bost union yr un fath a gafwyd gan ddyneiddwyr, neu gefnogwyr dyneiddwyr, yn mynegi cefnogaeth i gynigion y Llywodraeth ac yn croesawu'r diwygiadau fel rhai a fyddai'n gwella rhyddid cyplau a lleoliadau i ddewis. Mynegwyd y gefnogaeth hon hefyd mewn perthynas â'r cynigion i ddarparu seremonïau priodas yn yr awyr agored i gyplau sy'n dymuno cael priodasau crefyddol ar dir lleoliadau crefyddol drwy orchymyn diwygio deddfwriaethol ar wahân, ac i'r broses gymeradwyo arfaethedig ar gyfer tiroedd y mannau addoli hynny.

- Fodd bynnag, roedd ymatebwyr dyneiddiol yn gryf o blaid ymestyn y gydnabyddiaeth gyfreithiol i briodasau Dyneiddiol yn ogystal â'r cynigion hyn, er mwyn rhoi'r un cyfle i gyplau dyneiddiol briodi mewn seremonïau yn ôl eu credoau fel sydd eisoes yn bosibl i gyplau sy'n dymuno cael priodasau crefyddol. Nodwyd manteision economaidd posibl a materion cydraddoldeb i gefnogi eu sylwadau.

- Roedd y ddogfen ymgynghori wedi amlinellu materion sy'n cael sylw yn adolygiad Comisiwn y Gyfraith nad oeddynt o fewn cwmpas yr ymgynghoriad. Roedd yr ymgynghoriad wedi'i gyfyngu i geisio mewnbwn ar bolisi arfaethedig y Llywodraeth fel y'i nodwyd yn y papur ymgynghori.

- Pan gyhoeddodd y Llywodraeth y mesurau dros dro ar gyfer seremonïau sifil ym mis Mehefin 2021, roeddem hefyd wedi ymrwymo i osod offeryn arall i wneud y newidiadau'n rhai parhaol yng Ngwanwyn 2022. Roedd y Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo bryd hynny i ddeddfu i alluogi priodasau crefyddol yn yr awyr agored pan fyddai'r amserlen seneddol yn caniatáu. Yna, cynigiwyd diwygiadau i ganiatáu seremonïau priodas crefyddol yn yr awyr agored yn y papur ymgynghori er mwyn rhoi dewis a hyblygrwydd tebyg i gyplau sy'n dymuno cael priodas sifil neu grefyddol drwy ganiatáu i'r seremonïau hyn gael eu cynnal yn yr awyr agored. Ni chafodd unrhyw newid ei gynnig yn y papur ymgynghori i gyfraith priodas sylfaenol yn ehangach.

# Ymatebion i gwestiynau penodol

**1. Ydych chi wedi cael profiad cysylltiedig â seremoni awyr agored ar dir safle cymeradwy ers 1 Gorffennaf 2021? Beth oedd yn gweithio’n dda neu ddim yn gweithio’n dda?**

Roedd gan 84% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn brofiad o seremoni awyr agored ar dir safle cymeradwy ers 1 Gorffennaf 2021. O’r rhain, mae mwyafrif helaeth wedi cael profiad cadarnhaol o’r seremonïau hyn, gan nodi:

- bod mwy o hyblygrwydd a dewis i leoliadau a chyplau;
- bod cofrestrwyr, gwesteion a staff y lleoliad yn teimlo’n fwy diogel yn ystod pandemig Covid-19;
- y gallu i ddefnyddio a chael budd o leoliadau awyr agored hardd o amgylch Cymru a Lloegr;
- poblogrwydd ymhlith cyplau;
- ar gyfer lleoliadau sydd â thir awyr agored, mae wedi eu galluogi i ehangu eu darpariaeth a bod yn fwy deniadol i gyplau;
- ei fod yn atal yr angen am seremoni “ffug” yn yr awyr agored ac un gyfreithiol dan do, gan arbed amser ac arian.

Dyma rai pethau na weithiodd yn dda:

- Tywydd Prydain, a oedd yn golygu bod angen symud dan do, gyda chyplau’n amharod i wneud hynny o bryd i’w gilydd;
- problemau gyda phobl yn methu clywed y seremoni’n iawn oherwydd sŵn allanol, yn enwedig o ffyrdd cyfagos;
- yr anallu i ddefnyddio pebyll mawr a gasebos sy’n fwy na 50% yn gaeedig oherwydd y diffiniad o “dan do” yn yr OS dros dro ar gyfer seremonïau sifil;
- amheuon ynghylch yr angen am amodau, mewn perthynas â’r hyn sy’n cael ei ystyried yn lle addas ar gyfer seremoni (gan gynnwys ystyriaethau iechyd a diogelwch).

Cafwyd sawl sylw gan leoliadau a chynrychiolwyr gwasanaethau cofrestru ynghylch y diffiniad o “dan do”, a pha fath o strwythur fyddai’n cael ei ystyried i fod yn ‘yr awyr agored’. Effaith y diffiniad hwn yw bod strwythur yn cael ei ystyried yn un ‘dan do’ os yw dros 50% yn gaeedig, sy’n golygu y gellid defnyddio strwythurau lled-barhaol fel pebyll mawr gyda’r fflapiau ar yr ochrau wedi eu rholio i fyny, ond nid pe bai’r rhain yn cael eu

rholio i lawr (er enghraifft, mewn tywydd gwael). Teimlwyd bod yr ansicrwydd hwn yn achosi dryswch a rhwystredigaeth ar ddiwrnod y seremoni.

**2. Ydych chi wedi cael profiad o gynllunio neu'n dymuno cael seremoni awyr agored ar dir safle cymeradwy ers 1 Gorffennaf 2021? Beth oedd yn gweithio'n dda neu ddim yn gweithio'n dda?**

O'r ymatebwyr a oedd wedi cael profiad o seremoni awyr agored ar dir adeiladau cymeradwy ers 1 Gorffennaf 2021, roedd gan fwyafrif mawr brofiad cadarnhaol o gynllunio neu geisio priodas yn yr awyr agored, ac nid oeddent wedi dod ar draws unrhyw broblemau yn y broses gynllunio. Nododd rhai fod y lleoliadau wedi bod yn hyblyg a'u bod wedi darparu ystafell wrth gefn i gyplau yn yr adeilad pe bai'r tywydd yn wael.

Ychwanegodd rhai ymatebwyr fod cael seremoni awyr agored yn golygu y gallent ddarparu ar gyfer mwy o westeion, yn enwedig yn ystod yr adeg pan roedd cyfyngiadau Covid-19 yn atal grwpiau o faint penodol rhag ymgynnull dan do. Dywedodd lleoliadau ei fod yn creu mwy o ardaloedd iddynt eu defnyddio, gan eu gwneud yn fwy deniadol i gyplau.

Nododd lleiafrif o'r ymatebwyr fod ansicrwydd ynghylch y tywydd yn gwneud y profiad o gynllunio yn fwy o straen. Roedd rhai yn cynllunio priodas yn ystod haf 2022 ac yn ansicr a allent fwrw ymlaen gyda seremonïau awyr agored oherwydd bod yr OS seremonïau sifil dros dro yn dod i ben ym mis Ebrill.

---

**3. Ydych chi wedi cael profiad o wneud cais am gymeradwyaeth neu adnewyddu cymeradwyaeth ar gyfer safle sydd â mannau awyr agored cysylltiedig ers 1 Gorffennaf 2021? Beth oedd yn gweithio'n dda neu ddim yn gweithio'n dda?**

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi cael profiad o wneud cais am gymeradwyaeth neu adnewyddu cymeradwyaeth ers 1 Gorffennaf 2021. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd â phrofiad o hyn fod y broses yn un hawdd, ac na ddaethant ar draws unrhyw broblemau. Nododd cynrychiolwyr gwasanaethau cofrestru yr awdurdodau lleol hefyd fod y broses hon yn hawdd ac yn gweithio'n dda. Nododd un nad oeddynt wedi sylwi ar unrhyw wahaniaeth mewn ceisiadau oherwydd y cyfyngiad amser ar y rheoliadau presennol. Rhai o'r materion a godwyd oedd anawsterau wrth ddiffinio'r ardaloedd lle caniateir i'r seremoni gael ei chynnal dan "ddarpariaethau'r drwydded", a'r angen am ystafell wrth gefn y tu mewn os bydd tywydd gwael.

Dywedodd un cynrychiolydd o'r gwasanaethau cofrestru, oherwydd bod "modd rhoi trwyddedau hyd at flwyddyn cyn y dyddiad adnewyddu, a bod awdurdodau lleol nawr yn cymeradwyo mannau awyr agored tan fis Ebrill, a bod yr adran Trwyddedu yn eu trwyddedu tan, o bosibl, 6 ar ôl hynny. Mae hyn yn gadael bwlch pan nad yw'r lleoliadau'n

gwybod beth yw'r sefyllfa, ac y gallai'r sefyllfa hon arwain at niwed sylweddol i enw da'r Awdurdod Lleol."

Nododd un arall mai'r "broblem fawr yn y maes hwn yw ceisio egluro i leoliadau a chyplau nad yw bod yn yr awyr agored yn golygu nad oes cyfyngiad ar niferoedd. Rhaid i leoliadau barhau i ddilyn y niferoedd a nodir yn eu hasesiad risg gan fod gwesteion yn dal i ddefnyddio cyfleusterau'r lleoliad fel parcio a thoiledau, felly hyd yn oed os yw gerddi'r lleoliad yn helaeth, ni allant fynd y tu hwnt i'r niferoedd a nodir yn eu hasesiadau risg."

---

**4. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar sut mae'r darpariaethau presennol sy'n caniatáu i briodasau sifil a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored gael eu cynnal ar safleoedd cymeradwy wedi gweithio ers dod i rym ar 1 Gorffennaf 2021? Oes gennych chi unrhyw sylw ynghylch sut byddai'r cynnig i barhau â'r newidiadau hyn yn gweithio?**

Mynegodd ymatebwyr eu cefnogaeth i barhau â'r darpariaethau sy'n caniatáu seremonïau yn yr awyr agored, gan nodi'r manteision a nodir yn C1.

Roedd y pwyntiau eraill a godwyd yn cynnwys sicrhau bod asesiad risg addas wedi'i gynnal, pwysigrwydd sicrhau bod ystafell arall ar gael gyda lle ar gyfer yr holl westeion pe bai'r tywydd yn wael, a phwysigrwydd cynnal y seremoni yn achlysur difrifol ac urddasol. Roedd nifer fach o gofrestryddion wedi codi'r mater bod cyplau weithiau'n amharod i symud eu seremoni dan do pan fo'r tywydd yn wael. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o gofrestryddion yn teimlo bod cael seremoni y tu allan yn effeithio ar eu gallu i wneud eu gwaith. Gofynnodd un cynrychiolydd o wasanaeth cofrestru am osod cyfyngiadau neu gymeradwyaethau ar yr ardal benodol lle gellir cynnal priodasau, a soniodd un arall eu bod wedi gosod amodau penodol ar gyfer eu lleoliadau, fel cynnig cysgod i'r cwpl a'r cofrestrydd mewn tywydd poeth.

Nododd un arall fod "y broses wedi gweithio'n dda, ond mae hi wedi bod yn broses gostus i Wasanaethau Cofrestru awdurdodau lleol. Bob tro y gwneir cais am hyn, rydym wedi gorfod anfon uwch aelod o staff i asesu'r ardal a'i chymeradwyo wedyn. Yn dilyn hyn, mae angen wedyn i'n Swyddog Trwyddedu gwblhau'r gwaith papur perthnasol. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid gwneud yr holl waith hwn am ddim, ac nid yw hyn yn cynaliadwy mewn gwasanaeth sy'n adennill costau. Mae'r broses yn debyg i ychwanegu ystafell fewnol newydd, y caniateir i ni godi tâl amdani, felly mae hyn yn anghysondeb."[2]

[2] Hoffem egluro nad oedd gofyniad yn yr OS dros dro i wasanaethau cofrestru awdurdodau lleol ymweld â'r man awyr agored cyn y seremoni (er bod hyn wrth gwrs yn cael ei argymell i helpu i sicrhau nad yw problemau'n codi ar ddiwrnod y seremoni), ac nid ydym yn bwriadu newid hyn ar gyfer yr OS amhenodol. Ar hyn o bryd ystyrir bod adeiladau cymeradwy yn cynnwys eu "ardaloedd awyr agored cysylltiedig", ni fyddai angen cyflwyno ceisiadau newydd er mwyn i seremonïau gael eu cynnal yn yr ardaloedd awyr

Ychwanegodd rhai cynrychiolwyr grwpiau crefyddol y dylid ymestyn y newidiadau i briodasau crefyddol, a gofynnodd gweinyddion a dyneiddwyr (mewn niferoedd mawr) am gyfreithloni priodasau a arweinir gan weinyddion a rhai'r dyneiddwyr yn ogystal â'r cynigion ar gyfer seremonïau yn yr awyr agored. Mynegodd nifer fach o weinyddion bryderon am yr effaith y byddai'r cynnig yn ei gael ar eu bywoliaeth, gan fod priodasau yn yr awyr agored yn un o'r prif bethau sy'n ysgogi seremonïau sy'n cael eu harwain gan weinyddion.

---

**5. Ydych chi'n credu y dylai'r ddarpariaeth ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored ar dir safleoedd cymeradwy barhau ar ôl 5 Ebrill 2022 pan ddaw'r ddarpariaeth bresennol i ben? Rhowch resymau dros eich ateb.**

Roedd 96% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn o'r farn y dylai'r ddarpariaeth ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored ar dir safleoedd cymeradwy barhau ar ôl 5 Ebrill 2022 pan ddaw'r ddarpariaeth bresennol i ben. Y rhesymau a roddwyd o blaid parhau â'r ddarpariaeth drwy wneud OS pellach oedd parhau i roi dewis a hyblygrwydd i gyplau a lleoliadau, bod gwesteion, cofrestrwyr a staff lleoliadau yn teimlo'n fwy diogel yn yr awyr agored yn ystod pandemig Covid-19, ei fod yn atal yr angen am seremoni "ffug" yn yr awyr agored ac un gyfreithiol dan do a'i fod yn caniatáu i gyplau elwa o'r lleoliadau awyr agored sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr. Nododd y rhan fwyaf o leoliadau fod seremonïau awyr agored wedi bod yn boblogaidd a bod galw am seremonïau yn yr awyr agored ar gyfer haf 2022. Mi wnaethant nodi y byddai'n cefnogi busnesau lleol yr effeithiwyd arnynt gan bandemig Covid-19.

Mynegodd lleiafrif o'r ymatebwyr amheuon ynghylch yr angen am amodau, mewn perthynas â'r hyn sy'n cael ei ystyried yn lle addas ar gyfer seremoni (gan gynnwys ystyriaethau iechyd a diogelwch), yr angen i sicrhau bod seremonïau'n parhau i fod yn urddasol a bod yn rhaid i seremonïau symud dan do mewn tywydd garw. Roedd gweinyddion a dyneiddwyr yn cefnogi parhad yr OS. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn awgrymu y dylai'r darpariaethau ychwanegol hyn fod yn rhai dros dro hefyd, fel cam tuag at argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

Fodd bynnag, nodwyd bod rôl cofrestrwyr i sicrhau bod y seremoni'n dal yn briodol yn allweddol a bod angen i ganllawiau ar briodasau a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored nodi'n glir pa lefydd sy'n addas ar gyfer seremoni, a bod cynlluniau tywydd garw yn


---

agored cysylltiedig o fewn ffiniau'r eiddo. Byddai unrhyw geisiadau newydd am gymeradwyaeth, neu geisiadau i adnewyddu cymeradwyaeth, yn ymestyn yn awtomatig nid yn unig i'r safle adeiledig, ond hefyd i'r ardaloedd awyr agored cysylltiedig, felly ni fyddai angen ymweliad ychwanegol i asesu'r ardal awyr agored yn unig. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod yr amod "gweddus ac urddasol" yn cael ei fodloni, rhaid cael cadarnhad ymlaen llaw gan y cofrestrydd arolygol, er y gallai'r ymweliad i gael hyn ddigwydd ar ddiwrnod y seremoni, neu ar ddyddiad cyfleus arall, ac ni fyddai angen ymweliad penodol bob amser.

angenrheidiol. Gyda diddymu cofrestri ffisegol, nodwyd hefyd bod mwy o gyfle i swyddogion cofrestru fod yn hyblyg mewn perthynas â lleoliad seremonïau.

---

**6. Ydych chi'n debygol o ddefnyddio'r opsiwn i gynnal seremonïau priodas sifil phartneriaeth sifil yn yr awyr agored ar dir safleoedd cymeradwy?**
   **a. Os ydych chi, pa ffactorau sy'n gwneud hyn yn debygol?**
   **b. Os nad ydych chi, beth fyddai'n eich atal rhag defnyddio'r ddarpariaeth?**




Dywedodd 63% o'r ymatebwyr y byddent yn defnyddio'r darpariaethau ar gyfer seremonïau yn yr awyr agored. Dywedodd mwyafrif helaeth o gynrychiolwyr lleoliadau y byddent yn ei ddefnyddio er mwyn defnyddio eu tiroedd, ac oherwydd bod galw am hyn gan gyplau. Dywedodd cynrychiolwyr gwasanaethau cofrestru hefyd y byddent yn defnyddio'r darpariaethau oherwydd y galw gan gyplau a lleoliadau.

Dywedodd 14% na fyddent yn defnyddio'r darpariaethau. Y rhesymau a roddwyd dros hyn oedd bod yr atebydd eisoes yn briod neu oherwydd y byddent yn dymuno cael priodas grefyddol.

Nododd sawl cwpl eu bod yn bwriadu cynnal priodas yn ystod haf 2022 a'u bod am gael priodas yn yr awyr agored na fyddai'n bosibl pe bai'r ddeddfwriaeth dros dro bresennol yn dod i ben.

---

**7. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth i gyd-fynd â'r offeryn statudol a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2021? A fyddai modd ei wella, ac os felly, sut?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon â'r canllawiau, ond dywedodd 28 o ymatebwyr fod angen gwelliannau. Rhai o'r gwelliannau a argymhellwyd oedd cael eglurder ynghylch defnyddio strwythurau lled-barhaol fel pebyll mawr, a chanllawiau cliriach ar yr hyn sy'n cael ei ystyried yn dywydd garw.

Roedd cynrychiolwyr adeiladau cymeradwy yn fodlon ar y cyfan â'r canllawiau, er bod rhai yn nodi nad oeddent wedi'i weld neu ei fod wedi'i gyhoeddi'n rhy hwyr.


Dywedodd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr awdurdodau sy'n gyfrifol am gymeradwyo safleoedd, neu wasanaethau cofrestru, fod y canllawiau'n glir.

---

**8. Ar hyn o bryd, mae amod sy'n cyfyngu ar werthu bwyd neu ddiodydd alcoholig cyn y seremoni, boed hynny yn yr ystafell berthnasol yn yr eiddo adeiledig neu wrth ymgasglu yn yr awyr agored at ddibenion y seremoni. (Caniateir yfed diodydd di-alcohol yn yr ystafell neu'r lleoliad awyr agored cyn y seremoni, ac felly hefyd unrhyw fwyd neu ddiod sy'n cael ei fwyta neu ei yfed fel rhan o unrhyw seremoni grefyddol a gynhelir cyn y briodas.)**

   **a. A oes gennych chi unrhyw brofiad o'r amod hwn, neu sylwadau yn ei gylch?**
   **b. A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud am y cynnig i gadw'r amod hwn? Nid yw'r amod yn OS mis Gorffennaf yn nodi'n benodol yr hyn a olygir wrth ymgasglu at ddibenion y seremoni – a oes gennych unrhyw sylwadau ar hyn ac a ddylai gyfeirio at y man yn y tir awyr agored lle bydd y seremoni'n cael ei chynnal?**
   **c. Ydych chi'n cytuno y dylai'r amod fod yn berthnasol p'un a yw'r seremoni'n digwydd mewn ystafell yn yr eiddo adeiledig neu mewn ardal gysylltiedig yn yr awyr agored? Rhowch resymau dros eich ateb os gwelwch yn dda.**
   **d. A yw eich atebion yr un fath neu'n wahanol yn dibynnu a yw'r ardaloedd awyr agored yn gysylltiedig ag adeiladau crefyddol neu rai anghrefyddol?**

Roedd 43% o'r ymatebwyr o blaid cadw'r amod sydd yn ei le ar hyn o bryd sy'n nodi na chaniateir gwerthu unrhyw fwyd na diod i bobl, ac na chaniateir chwaith i bobl ei fwyta wrth ymgasglu at ddibenion seremoni neu yn ystod y seremoni. Roedd 25% o blaid dileu'r amod, ac ni wnaeth 31% o'r ymgyngoreion ateb y cwestiwn hwn. Felly, o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 63% o blaid cadw'r amod. Y prif resymau a nodwyd dros hyn oedd sicrhau bod seremonïau'n aros yn weddus ac yn urddasol, eu bod yn adlewyrchu gwedduster yr achlysur, er mwyn sicrhau bod gan y cyplau allu meddyliol llawn wrth briodi ac osgoi cael gwesteion meddw. Nododd rhai ymatebwyr hefyd fod digon o amser ar gyfer




bwyd a diod ar ôl y seremoni. Nododd rhai ymatebwyr eu bod wedi cael profiad o westeion meddw neu'r cwpl sy'n priodi yn feddw, a'u bod yn anodd eu rheoli.

Dywedodd un ymatebydd fod "Y gwaharddiad ar yfed alcohol cyn y seremoni hefyd yn caniatáu i'r rheini sydd wedi cael eu gorfodi i briodi i godi eu llais ac i'r gweinydd sylwi ar unrhyw ymddygiad sy'n awgrymu ei bod yn briodas ffug a allai fel arall gael ei anwybyddu neu ei esgusodi oherwydd meddwdod".

Y rhesymau a roddwyd o blaid dileu'r amod oedd bod y rheolau'n teimlo'n rhy gyfarwyddol, ei bod yn anodd plismona hyn, ac y dylai cyplau allu dewis yr hyn y maent yn ei weini i westeion. Gofynnodd rhai i hyn fod yn berthnasol i ardal gyfagos y seremoni yn unig.

Ar y cyfan, roedd yr holl grwpiau, ar wahân i unigolion a oedd wedi cymryd rhan mewn seremoni awyr agored neu sy'n dymuno gwneud hynny yn y dyfodol, a'r gweinyddion, o blaid cadw'r amod.

Awgrymodd un ymatebydd y gellid cyfyngu'r rheol hon i'r cwpl a'r tystion yn unig, ac awgrymodd eraill y dylid cael mwy o eglurder ynghylch pa mor hir cyn y seremoni y mae'r cyfyngiad yn berthnasol, ac ym mha ardal y mae'r rheolau'n berthnasol (h.y. a yw'n berthnasol i'r ardal awyr agored gyfan). Nododd un arall y gall fod yn anodd mewn man awyr agored i benderfynu pa ran o'r ardd/man agored sy'n dod o dan yr amod sy'n cyfyngu ar werthu bwyd neu ddiod alcoholig.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r amod fod yn berthnasol p'un a yw'r seremoni'n digwydd mewn ystafell yn yr eiddo adeiledig neu mewn ardal gysylltiedig yn yr awyr agored, gan ddweud os yw'n berthnasol i un lle y dylai fod yn berthnasol i bob lle.

Nododd grwpiau crefyddol y dylai'r amodau hyn barhau er mwyn sicrhau bod gan y cyplau'n priodi gyda defnydd llawn o'u gallu meddyliol a'u bod yn gallu gwneud penderfyniad cyfrifol mewn achlysur pwysig sy'n rhwymo mewn cyfraith.

---

**9. Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu arsylwadau eraill yr hoffech eu hychwanegu?**

Roedd y sylwadau'n cynnwys rhagor o ddatganiadau o gefnogaeth ar gyfer parhau â'r ddarpariaeth ar gyfer priodasau yn yr awyr agored a gofyn i'r OS pellach gael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

Gofynnodd grwpiau crefyddol am fwy o ymgysylltu â grwpiau crefyddol mewn perthynas â phriodasau crefyddol yn yr awyr agored, yn enwedig gyda Chyngor yr Archesgob.

---

*Cwestiynau ychwanegol ar gyfer lleoliadau (i'r graddau nad yw'r ymatebion uchod wedi ymdrin â hwy eisoes):*

**10. Ydych chi wedi cynnig neu gynnal seremonïau yn yr awyr agored ar eich safle ers 1 Gorffennaf 2021?**
   **a. Beth yw lefel y diddordeb sydd wedi bod? Rhowch unrhyw ddata sydd ar gael.**
   **b. Beth oedd yn gweithio'n dda neu ddim yn gweithio'n dda?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn wedi cynnig neu wedi cynnal seremonïau yn yr awyr agored. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhain fod diddordeb wedi bod, gyda seremonïau awyr agored yn gwneud eu lleoliadau'n fwy deniadol. Dywedodd ymatebwyr fod seremonïau awyr agored yn eu lleoliadau'n cyfrif am rhwng 30-100% o'r priodasau roeddent yn eu cynnal a nododd nifer o ymatebwyr bod diddordeb wedi'i fynegi mewn cael priodasau o'r fath yn 2022.

Dywedodd eraill fod diddordeb cymedrol neu isel wedi'i ddangos, neu nad oeddent wedi bod yn mynd ati i hyrwyddo'r opsiwn i gyplau gan eu bod yn gwybod mai deddfwriaeth dros dro oedd mewn grym.

Nododd ymatebwyr fod y rhan fwyaf o briodasau'n cael eu harchebu ymhell ymlaen llaw, felly roedd natur byrdymor a byr rybudd yr OS yn golygu na fu cynnydd dramatig yn y nifer oedd yn manteisio arno ar gyfer llawer o leoliadau. Awgrymodd ymatebwyr pe bai mwy o rybudd wedi'i roi o ddarpariaethau'r OS, y gellid bod wedi sefydlu seilwaith i hwyluso mwy o seremonïau awyr agored a hysbysebu'r opsiwn hwn i gyplau.

Roedd bron pob un o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn dweud bod seremonïau awyr agored yn gweithio'n dda, gan gyfeirio at yr hyblygrwydd roedd yn ei gynnig, y gallu i fod yn agos at natur a'r opsiynau ychwanegol roedd y ddeddfwriaeth yn eu darparu ar gyfer lleoliadau.

Roedd y rheini a ddywedodd nad oedd seremonïau yn yr awyr agored wedi gweithio'n dda yn cyfeirio at y ddibyniaeth ar gael tywydd da ac anhapusrwydd cofrestryddion i deithio i leoliadau awyr agored neu nad oeddynt yn ymwybodol o'r rheolau.

---

11. **A wnaeth natur dros dro'r OS cychwynnol (h.y., bod newidiadau 1 Gorffennaf 2021 yn dod i ben ar 5 Ebrill 2022) eich atal rhag cynnal seremonïau yn yr awyr agored, neu rhag gwneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer eich safle?**
    a. **Ydych chi'n gwybod a oedd gan gyplau ddiddordeb mewn cael seremoni yn yr awyr agored ond bod natur dros dro'r OS cychwynnol wedi'u hatal rhag gwneud hynny? Rhowch unrhyw ddata sydd ar gael.**
    b. **Ydych chi'n fwy tebygol o fanteisio ar y cyfle o wybod na fyddai cyfyngiad amser ar yr OS arfaethedig?**

Dywedodd 76% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn nad oedd natur dros dro yr OS yn atal lleoliadau rhag cynnal seremonïau yn yr awyr agored. Y rhesymau a roddwyd oedd bod y broses ymgeisio'n syml, bod y galw yn bodoli a'ch bod yn gallu cynnig amgylchedd diogel yn ystod pandemig Covid-19 a'r rheoliadau cadw pellter cymdeithasol.

Hefyd, nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwybodol bod natur dros dro'r OS cychwynnol yn atal cyplau rhag dewis seremoni yn yr awyr agored. Fodd bynnag, nodwyd bod cyplau sy'n dymuno priodi yn yr awyr agored yn ystod haf 2022 yn ansicr a ydynt am

fwrw ymlaen oherwydd y bod y rheoliadau'n dod i ben, ac efallai eu bod felly'n trefnu seremonïau dan do yn lle hynny. Ailadroddwyd y pwynt cynharach bod priodasau'n aml yn cael eu trefnu flynyddoedd ymlaen llaw.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y byddai unrhyw gyhoeddiad ynghylch gwneud y newidiadau'n rhai parhaol yn cael llawer mwy o effaith pe bai'n cael ei gyhoeddi cyn bo hir, gan fod cyplau eisoes yn archebu lleoliadau ar gyfer seremonïau haf 2023, a bod angen sicrwydd ar gyplau a lleoliadau fel ei gilydd ynghylch cyfyngiadau cyfreithiol er mwyn gallu gwneud cynlluniau priodol wrth symud ymlaen.

Nododd ymatebwyr hefyd ei bod yn anodd esbonio newidiadau deddfwriaethol cymhleth i gyplau posibl, ac i leoliadau ddeall beth yn union y caniateir iddynt ei ddarparu.

Cyfeiriwyd at y tywydd fel rhwystr dro ar ôl tro hefyd, gan gyfrannu at ansicrwydd ynghylch a allai seremonïau fynd rhagddynt, a nodwyd yn benodol fod y ddarpariaeth 'tywydd garw' yn y canllawiau'n peri dryswch.

Dywedodd llawer o leoliadau eu bod yn debygol o fanteisio pe na bai cyfyngiad amser ar y darpariaethau mwyach, gan nodi y byddent yn hyrwyddo'r opsiwn yn fwy i gyplau pe bai mwy o sicrwydd yn cael ei roi ynghylch a fyddai seremonïau awyr agored yn cael eu caniatáu ar ôl 6 Ebrill 2022.

Dywedodd eraill y byddent yn ceisio ehangu nifer y lleoliadau lle gellid cynnig seremonïau ac y byddent yn buddsoddi mewn gwella seilwaith yn sylweddol er mwyn gwneud dewisiadau awyr agored yn fwy deniadol i gyplau.

---

**12. Oeddech chi/ydych chi'n rhagweld unrhyw refeniw neu gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â hwyluso priodasau sifil neu bartneriaethau sifil yn yr awyr agored? Rhowch gymaint o wybodaeth ag sy'n ymarferol bosibl am y refeniw a'r costau ychwanegol hyn.**

   **a. Wnaethoch chi fuddsoddi mewn seilwaith ychwanegol?**
   **b. Ydych chi'n credu bod unrhyw gostau ychwanegol yn werth chweil yn fasnachol, neu'n rhwystr rhag darparu seremonïau yn yr awyr agored?**

Dywedodd y rhan fwyaf o'r lleoliadau eu bod yn rhagweld costau ychwanegol, gan gynnwys systemau sain, goleuadau, cydlynwyr priodasau, dodrefn ac amser i sefydlu. Roedd costau ychwanegol eraill yn cynnwys mesurau iechyd a diogelwch ychwanegol, yr angen am ragor o gydlynwyr priodas i sicrhau bod gwesteion yn osgoi mannau peryglus yn yr awyr agored, dodrefn newydd a pharatoi mannau awyr agored ychwanegol fel addurniadau.

Pe bai'r newidiadau'n cael eu gwneud yn barhaol, nododd rhai ymatebwyr y byddent yn buddsoddi mwy mewn seilwaith gan gynnwys cysgodlenni a llochesi.

Fodd bynnag, soniodd rhai y byddai'r gost hon yn cael ei throsglwyddo i'r cleient (roedd un ymateb yn awgrymu bod y lleoliad yn codi cyfradd safonol o 25% ychwanegol i adlewyrchu gwaith ychwanegol ar gyfer sefydlu).

Dywedodd rhai eu bod wedi gweld mwy o refeniw yn sgil mwy o gyplau'n trefnu seremonïau yn eu lleoliad. Dywedodd y mwyafrif nad oeddent yn rhagweld unrhyw gynnydd sylweddol mewn refeniw.

Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr a oedd yn cynrychioli lleoliadau o'r farn bod y costau ychwanegol yn werth chweil yn fasnachol oherwydd y cynnydd tymor hir disgwyliedig mewn busnes. Roedd y rhesymau a nodwyd yn cynnwys y ffaith ei fod yn annog mwy o gyplau i drefnu priodasau gyda nhw, yn cynyddu diddordeb yn y lleoliad ac yn fwy deniadol i gyplau.

---

**13. Ar gyfer lleoliadau priodasau sifil neu bartneriaethau sifil gyda statws safle cymeradwy neu rai heb y statws hwnnw:**

- **a. Sut byddai'r cynnig i barhau i ganiatáu seremonïau yn yr awyr agored yn effeithio ar eich prosesau gweinyddol wrth drefnu priodasau / seremonïau partneriaeth sifil yn yr awyr agored? Rhowch enghreifftiau.**
- **b. Sut byddai'r cynnig yn effeithio ar y costau a wynebir gan eich lleoliad wrth drefnu seremonïau priodas/partneriaeth sifil yn yr awyr agored? Rhowch enghreifftiau.**
- **c. Pa effaith fyddai'r cynnig yn ei gael ar yr amser sy'n cael ei dreulio'n trefnu seremonïau priodas/partneriaeth sifil yn yr awyr agored?**

Dywedodd pob lleoliad na fyddai fawr ddim newid, os o gwbl, i brosesau gweinyddol nac amser a dreuliwyd yn trefnu seremonïau.

Roedd y newidiadau bach hynny a grybwyllwyd yn cyfeirio at y cynnydd yn nifer y lleoliadau ar gyfer seremonïau lle mae angen mwy o gadw cofnodion a chostau sefydlu, a chynnydd bach yn y llwyth gwaith o ran hysbysebu gofod arall i gyplau.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddai cynnydd bychan iawn yn y costau, neu ddim cynnydd o gwbl, y tu hwnt i brynu seddi a byrddau ychwanegol, rhywbeth yr oedd llawer eisoes wedi ei wneud oherwydd cyfyngiadau Covid-19 blaenorol, a mwy o staff o bosibl.

---

**14. Ydych chi wedi profi unrhyw fanteision neu anawsterau ymarferol sy'n deillio o'r amodau ar gyfer defnyddio mannau awyr agored cysylltiedig i gynnal seremonïau? (Trafodir y cynnig i barhau â'r amodau hyn ar dudalennau 11-13 y papur hwn. Mae'r amodau hefyd wedi'u rhestru eto isod er gwybodaeth). Os nad ydych chi wedi cael unrhyw brofiad gyda'r amodau eto, ydych chi'n rhagweld unrhyw anawsterau neu fanteision? Rhowch fanylion.**

a. **Gofyniad i sicrhau cadarnhad bod y lleoliad yn weddus ac urddasol (gweler tudalen 11 y papur hwn);**
b. **Gofyniad bod modd adnabod y lleoliad yn ôl disgrifiad (gweler tudalen 12 y papur hwn);**
c. **Gofyniad i arddangos hysbysiad addas gyda gwybodaeth benodol (gweler tudalen 12 y papur hwn);**
d. **Cyfyngiadau ar fwyta a gwerthu bwyd a diod (gweler tudalen 12 y papur hwn). (Gweler hefyd Cwestiwn 8)**

Nid oedd 84% o'r ymatebwyr wedi gweld unrhyw fantais na phroblem benodol gyda'r amodau hyn.

O ran cwestiwn 14a, awgrymodd dau sylw bod angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod yr amodau hyn yn cael eu cyflawni, a bod ardaloedd peryglus yn cael eu nodi (e.e. pyllau dŵr).

O ran cwestiwn 14b, ni soniwyd am anawsterau, ac yn gyffredinol roedd ymatebwyr yn cytuno ei bod yn hawdd cyflawni'r amod hwn.

O ran cwestiwn 14c, soniodd un ymatebydd am gyplau nad oeddent yn hoffi'r arwyddion a ddarparwyd ac awgrymodd arwydd generig, tra'r oedd un arall yn ystyried a oedd angen ymweliad gan gofrestrydd i wirio a oedd yr arwydd yn cydymffurfio'n llawn â'r amod.

O ran cwestiwn 14d, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon â'r cyfyngiadau hyn, er bod lleiafrif yn dweud eu bod nhw neu gyplau a oedd wedi trefnu seremoni yn eu lleoliad eisiau dileu'r amod hwn er mwyn caniatáu mwy o ryddid (gweler hefyd grynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 8, uchod).

---

**15. Ydych chi wedi cael unrhyw brofiad o gymhwyso'r diffiniad o "dan do" (hy, yn hytrach nag awyr agored) neu ydych chi'n rhagweld unrhyw anawsterau gyda hyn yn ymarferol?**

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw anhawster o ran cymhwyso'r diffiniad ar yr amod bod y canllawiau'n glir iawn. Roedd yr angen am ganllawiau clir, synhwyrol a dealladwy a oedd yn cael eu cyfleu mewn da bryd yn bwysig iawn i lawer.

Dywedodd eraill y byddai'n well pe bai pob ardal o fewn ffin safle yn cael ei thrwyddedu heb fod angen nodi ystafelloedd penodol, a bod cymhwyso'r amod i bebyll yn arbennig o gymhleth.

---

**16. Efallai y bydd lleoliadau'n dymuno cael 'Cynllun B' addas os bydd tywydd garw. Gallai hwn fod yn strwythur wedi ei orchuddio yn yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig, neu'n ystafell dan do sy'n 'safle cymeradwy' ei hun. Ydych chi'n rhagweld, neu ydych chi wedi profi heriau sy'n gysylltiedig â darpariaeth amgen ar gyfer tywydd garw? A allai hyn ddylanwadu ar benderfyniadau i gynnig neu beidio â chynnig seremonïau yn yr awyr agored, neu a yw hyn wedi dylanwadu ar hynny?**

Roedd llawer o ymatebion yn tynnu sylw at broblemau posibl lle gallai tywydd gwael a diffyg gofod cymeradwy arall olygu na fydd rhai priodasau'n gallu bwrw ymlaen.

Nododd eraill eu bod eisoes yn cynnwys nifer o ardaloedd dan do y gellid eu defnyddio fel lleoliadau amgen, yn ogystal â mannau awyr agored fel gasebos a phebyll, neu hyd yn oed dim ond defnyddio ymbarelau.

Awgrymwyd bod eglurder ynghylch beth sy'n cael ei ystyried yn dywydd 'garw' yn bwysig, gyda lleoliadau'n nodi bod newid lleoliad y seremoni oherwydd tywydd garw yn effeithio'n fwy sylweddol ar gyplau na'r lleoliadau eu hunain. Nodwyd y posibilrwydd o wrthdaro â chofrestryddion ynghylch a ddylid symud priodasau dan do.

---

**17. Er mwyn cynnig lle wrth gefn mewn tywydd garw, a fyddech chi'n bwriadu darparu trefniadau wrth gefn yn yr awyr agored er mwyn cadw eich ardal dan do yn rhydd i gynnal seremonïau ychwanegol, neu a fyddech chi'n bwriadu cadw eich strwythur(au) dan do presennol yn wag at y diben hwn? Pe baech chi'n cynllunio trefniadau wrth gefn yn yr awyr agored, beth fyddai'r rhain? A fydden nhw'n bodloni'r diffiniad arfaethedig o "awyr agored" neu a fydden nhw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig ac felly "dan do" yn ôl y diffiniad arfaethedig (Gweler yr Eirfa)?**

Dywedodd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr y byddent yn ceisio cadw'r strwythurau dan do presennol yn wag at y diben hwn.

Dywedodd rhai ymatebwyr nad ydynt, er mwyn cadw'r lle yn benodol i un digwyddiad, yn cynnal dwy briodas ar yr un penwythnos, heb sôn am briodasau cydamserol, felly byddent yn sicr yn gadael y lle dan do yn wag. Soniodd eraill am gael pabell fawr neu strwythur tipi fel dewis wrth gefn.

Nododd ymatebwyr a oedd yn gyfrifol am nifer o leoliadau y bydd cynlluniau wrth gefn yn amrywio rhwng lleoliadau, gyda rhai'n cynnig lle dan do ac eraill yn gofyn am newid llwyr yn y lleoliad. Byddai'r rhain yn cael eu datgan yn glir i gyplau yn ôl lleoliadau, felly mae ymatebwyr o'r farn nad oes angen rheoleiddio hyn.

---

***Gorchymyn diwygio deddfwriaethol arfaethedig ar briodasau crefyddol yn yr awyr agored***

**18. Ydych chi'n cefnogi cynnig y Llywodraeth i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored ar dir mannau addoli lle mae'n rhaid cynnal priodasau, cyn belled fod y corff crefyddol priodol yn caniatáu hynny? Rhowch resymau dros eich ateb os gwelwch yn dda.**

Roedd 93% o'r ymatebwyr yn cefnogi cynnig y Llywodraeth i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored ar dir mannau addoli lle mae'n rhaid cynnal priodasau, cyn belled fod y corff crefyddol priodol yn caniatáu hynny. Roedd yr holl gynrychiolwyr o grwpiau crefyddol a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig hwn.

Y rhesymau o blaid y cynnig hwn oedd y byddai'n sicrhau tegwch a chydraddoldeb â phriodasau sifil, ac y byddai'n darparu hyblygrwydd a dewis i gyplau a mannau addoli o ran sut maent eisiau cynnal priodasau, gan sicrhau bod y seremoni'n adlewyrchu eu ffydd. Nododd grwpiau crefyddol, er nad oedd unrhyw rwymedigaeth ddiwinyddol i gynnal priodas o fewn cwrtil eglwys, bod yn rhaid i'r newidiadau hyn fod yn rhai o natur ganiataol, a bod angen hynny a'r amddiffyniadau presennol i ddiogelu rhyddid crefyddol aros yn eu lle. Nododd un ei fod yn cefnogi'r cynigion ar yr amod bod y Llywodraeth yn rhoi mwy o fanylion am sut bydd system "optio i mewn" yn gweithredu ar gyfer cyrff crefyddol.

Y rhesymau yn erbyn y cynnig oedd anaddasrwydd posibl y tir (oherwydd mynwentydd neu ddiffyg gofod awyr agored), a gofynnwyd mai dim ond os dylid gwneud darpariaeth ar gyfer priodasau cyfreithlon a phriodasau dan arweiniad gweinydd y dylid bwrw ymlaen â'r bwriad.

---

**19. Ydych chi'n debygol o ddefnyddio'r opsiwn i gynnal seremonïau priodas crefyddol yn yr awyr agored ar dir mannau addoli?**

**a. Os ydych chi, pa ffactorau sy'n gwneud hyn yn debygol?**
**b. Os nad ydych chi, beth fyddai'n eich atal rhag defnyddio'r ddarpariaeth?**

Byddai 44% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn defnyddio'r dewis hwn.

Nododd grwpiau crefyddol y byddent yn hoffi gallu darparu ar ei gyfer pe bai cyplau'n gofyn amdano. Nododd cynrychiolydd o Eglwys Loegr fod defnydd helaeth o'r ddarpariaeth yn annhebygol gan eu bod o'r farn bod y mwyafrif helaeth o gyplau sy'n priodi yn yr eglwys yn gwneud hynny'n union am eu bod eisiau i'r seremoni gael ei chynnal yn yr eglwys ei hun.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai na fyddent yn defnyddio'r darpariaethau naill ai'n bobl nad ydynt yn grefyddol, yn rhai sydd eisoes wedi priodi neu'n lleoliadau nad ydynt yn grefyddol. Y rhesymau eraill a roddwyd oedd bod tiroedd awyr agored eu man addoli yn annigonol, neu mai'r adeilad ei hun oedd yn bwysig iddynt.

---

**20. Ydych chi'n cefnogi'r cynigion:**

- **a. i dybio bod eglwysi a chapeli Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru yn cynnwys yn awtomatig eu tir awyr agored fel y gellir gweinyddu priodasau ar y tir hwn os yw'r priod Eglwys yn caniatáu hynny?**
- **b. i dybio bod cofrestriadau presennol mannau addoli ar gyfer crefyddau eraill (heblaw ffydd Iddewig a'r Crynwyr) yn cynnwys yn awtomatig eu tir awyr agored fel y gellir gweinyddu priodasau ar y tir hwn os yw'r corff crefyddol priodol yn caniatáu hynny?**
- **c. y byddai unrhyw geisiadau newydd i gofrestru mannau addoli yn ymestyn yn awtomatig i'r tir awyr agored, ond y dylai deiliaid tai ardystio eu bod yn dymuno i'r cofrestriad ymestyn i'r tir awyr agored, ac y dylai cydsyniadau gan awdurdodau llywodraethu perthnasol ymestyn hefyd i'r tir awyr agored?**

Roedd cefnogaeth bron yn unfrydol i gynigion y Llywodraeth ynghylch y prosesau cymeradwyo, sy'n cynnwys tybiaeth awtomatig bod mannau addoli'n cynnwys eu tiroedd awyr agored, er mwyn gallu gweinyddu priodasau ar y tiroedd hyn. Roedd hyn hefyd yn cynnwys y cynnig y byddai ceisiadau newydd i gofrestru mannau addoli yn ymestyn yn awtomatig i'r tir awyr agored, ond y dylai deiliaid tai ardystio eu bod yn dymuno i'r cofrestriad ymestyn i'r tir awyr agored, ac y dylai cydsyniadau gan awdurdodau llywodraethu perthnasol ymestyn hefyd i'r tir awyr agored. Nodwyd y byddai hyn yn sicrhau bod y darpariaethau ar gyfer priodas grefyddol yn cyd-fynd â phriodasau sifil.

Nododd yr Eglwys yng Nghymru nad oedd gan bob eglwys diroedd priodol ar gyfer priodasau awyr agored, gan felly ofyn am beidio â chael ei rhoi mewn sefyllfa lle'r oedd rwymedigaeth gyfreithiol arni i briodi cwpl yn yr awyr agored lle'r oedd yn amhriodol gwneud hynny, gan awgrymu mai'r ffordd hawsaf o gyflawni hyn fyddai drwy ddarpariaeth debyg i adrannau 5B(1) a 5B(2) Deddf Priodasau 1949 – e.e. cymal sy'n ei gwneud yn glir nad oes rhwymedigaeth ar glerig i weinyddu priodas yn yr awyr agored ac nad oes rhwymedigaeth ar ebrywad i ofalu bod tir eu heglwysi ar gael ar gyfer priodas o'r fath.

Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys y dylai awdurdodau lleol fod yn rhan o'r gwaith o gadarnhau bod ardaloedd awyr agored yn ddiogel, ac y gallai achosi aflonyddwch i aelwydydd lleol a'r posibilrwydd o amhariad sŵn mewn mannau lle mae dwysedd uchel o dai.

---

**21. Ydych chi'n rhagweld y bydd unrhyw anawsterau'n codi wrth glustnodi neu ddefnyddio'r tir awyr agored yn y man addoli?**

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ystyried y byddai unrhyw anawsterau o ran nodi na defnyddio'r tir awyr agored.

Fodd bynnag, cyfeiriodd rhai at rai fannau addoli, yn enwedig mewn dinasoedd, lle nad oedd tiroedd priodol naill ai oherwydd diffyg lle neu oherwydd mannau claddu, ac y byddai'n rhaid i eglwysi wneud darpariaethau ar gyfer mynediad diogel, iechyd a diogelwch. Roedd cynrychiolydd Eglwys Lloegr yn rhagweld y byddai anawsterau'n codi os bydd cwpl yn mynnu cael priodas ar dir yr eglwys ond bod y gweinidog o'r farn bod y tir sydd ar gael yn anaddas, gan danlinellu'r angen i'r darpariaethau fod yn ganiataol yn hytrach nag yn rhagnodol.

Nododd Historic Houses fod capeli mewn tai ac ystadau hanesyddol yn aml yn cael eu hintegreiddio i adeiladau a strwythurau mwy, ac o'r herwydd nad oes ganddynt ardal neu dir awyr agored penodol neu bwrpasol. O'r herwydd, mae'n anodd diffinio beth yw tiroedd awyr agored man addoli yn hytrach na thiroedd awyr agored adeilad ehangach. Byddai agor hyn i seremonïau crefyddol yn yr awyr agored yn osgoi'r mater penodol hwn; fel arall byddai angen canllawiau hael.

---

**22. Ydych chi'n cefnogi cynnig y Llywodraeth i beidio â chyflwyno unrhyw amodau ar gyfer defnyddio tir awyr agored; sy'n debyg i'r rhai a orfodir ar gyfer seremonïau sifil?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (74%) o blaid peidio â chyflwyno amodau o gwbl ar gyfer defnyddio tiroedd yr awyr agored sy'n debyg i'r rhai a osodwyd ar gyfer seremonïau sifil.

Dywedodd y rhai nad oeddent o blaid y dylid cael cyfyngiadau ar yfed alcohol, iechyd a diogelwch, lefelau sŵn, neu y dylid cyflwyno'r un amodau â phriodasau sifil i sicrhau cydraddoldeb.

---

**23. A fyddai'r ffaith bod modd cynnal seremonïau priodas crefyddol yn yr awyr o dan Gynnig 2 yn dylanwadu ar eich dewis chi i briodi drwy ddefnyddio seremoni grefyddol ai peidio?**

Dywedodd 25% o'r ymatebwyr y byddai'r ffaith bod priodasau yn yr awyr agored ar gael ar gyfer seremonïau crefyddol o dan Gynnig 2 yn dylanwadu ar eu penderfyniad i briodi mewn seremoni grefyddol ai peidio, gan ddweud y byddai priodasau crefyddol yn yr awyr agored yn gwneud priodasau crefyddol yn fwy deniadol.

Y rhesymau a roddwyd dros nodi y byddai hyn yn effeithio ar y dewis o seremoni oedd nad oeddent yn grefyddol, neu eu bod eisoes wedi priodi.

---

**24. Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu arsylwadau eraill yr hoffech eu hychwanegu?**

Ailadroddodd yr ymatebwyr eu cefnogaeth i'r cynnig. Gofynnodd dyneiddwyr a gweinyddion annibynnol am gyfreithloni priodasau a arweinir gan weinyddion a phriodasau dyneiddiol hefyd.

---

***Cwestiynau ychwanegol ar gyfer cyrff crefyddol neu berchnogion neu ymddiriedolwyr eraill mannau addoli (i'r graddau nad ydynt wedi'u cynnwys eisoes yn yr ymatebion uchod):***

**25. Ydych chi'n rhagweld unrhyw refeniw ychwanegol neu fanteision anariannol eraill yn gysylltiedig â hwyluso priodasau crefyddol yn yr awyr agored? Rhowch gymaint o wybodaeth ag sy'n ymarferol bosibl am y rhain.**

   **a. A fyddech chi'n buddsoddi mewn seilwaith ychwanegol?**
   **b. Ydych chi'n credu bod unrhyw gost ychwanegol yn rhwystr rhag darparu seremonïau yn yr awyr agored?**

O'r rhai a ymatebodd, dywedodd y rhan fwyaf y byddent yn rhagweld refeniw ychwanegol gan y bydd mwy o ddewis gan gyplau ar gyfer eu seremoni.

Rhai o'r costau ychwanegol fyddai cost darparu offer technegol ar gyfer sain yn yr awyr agored, seddi addas a darnau addurnol, a phebyll. Dywedodd yr Eglwys yng Nghymru na fyddent yn buddsoddi'n ganolog mewn seilwaith ychwanegol, ond y gallai eglwysi unigol wneud hynny. Gan fod un ffi genedlaethol ar gyfer eu holl briodasau, nododd yr Eglwys yng Nghymru na fyddai mecanwaith ar gael i eglwysi unigol adennill y costau hyn drwy ffioedd ychwanegol.

Er bod costau ychwanegol i'w disgwyl, dywedodd eraill bod y rhain yn dderbyniol gan y byddai'r gwelliannau'n arwain at refeniw ychwanegol yn sgil y cynnydd disgwyliedig yn nifer y priodasau a fyddai'n cael eu harchebu.

**26. Er mwyn cynnig lle wrth gefn mewn tywydd garw, a fyddech chi’n bwriadu darparu trefniadau wrth gefn yn yr awyr agored er mwyn cadw eich ardal dan do yn rhydd i gynnal seremonïau ychwanegol, neu a fyddech chi’n bwriadu cadw eich strwythur(au) dan do presennol yn wag at y diben hwn? Pe baech chi’n cynllunio trefniadau wrth gefn yn yr awyr agored, beth fyddai’r rhain? A fydden nhw’n bodloni’r diffiniad arfaethedig o “awyr agored” neu a fydden nhw’n gaeedig neu’n sylweddol gaeedig ac felly “dan do” yn ôl y diffiniad arfaethedig (Gweler yr Eirfa)?**

Dywedodd y rhan fwyaf o’r grwpiau crefyddol a atebodd y cwestiwn hwn na fyddent yn cynnal dwy seremoni ar yr un pryd ac y byddent yn cadw gofod dan do’r eglwys yn rhydd rhag ofn y byddai’r tywydd yn wael.

---

**27. Fyddech chi’n rhagweld:**

a. **unrhyw newidiadau i’ch prosesau gweinyddol wrth drefnu priodas yn yr awyr agored yn hytrach nag un dan do? Rhowch enghreifftiau.**
b. **unrhyw gostau a wynebir gan eich sefydliad/man addoli wrth drefnu priodas yn yr awyr agored i fod yn wahanol i un dan do?**
c. **ei bod yn gyflymach neu’n arafach i drefnu priodas yn yr awyr agored yn hytrach na dan do?**

Nid oedd yr un ymatebydd yn rhagweld unrhyw newid i’r broses weinyddol, cyflymder na chostau wrth drefnu priodas yn yr awyr agored.

---

***Cydraddoldebau (yn ymwneud â seremonïau sifil a chrefyddol)***

**28. Yn ogystal â’r ffyrdd y mae eich ymatebion i’r cwestiynau uchod yn cyfeirio at unrhyw effeithiau rydych chi wedi’u profi fel person sydd ag un neu ragor o nodweddion gwarchodedig, neu aelod o grŵp sy’n eu rhannu, a oes unrhyw effeithiau eraill rydych chi wedi’u profi neu effeithiau rydych chi’n rhagweld y bydd y cynnig yn eu cael ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.**

a. **Ydych chi’n cytuno ein bod wedi nodi’n gywir amrediad ac ystod yr effeithiau ar gydraddoldeb o dan y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn (gweler tudalen 46 yn benodol)? Rhowch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb fel y bo’n briodol.**

b. **Ydych chi'n rhagweld unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb o ganlyniad i gwmpas y cynigion hyn (gweler yr adrannau 'Cwmpas' o dan Gynigion 1 a 2)?**
c. **Oes unrhyw ddull lliniaru o ran effeithiau ar gydraddoldeb nad ydym wedi ei ystyried?**

Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno ein bod wedi nodi ystod a graddfa'r effeithiau ar gydraddoldeb yn gywir o dan y cynigion hyn. Roedd y dyneiddwyr a ymatebodd yn anghytuno (gweler isod).

Nododd rhai ymatebwyr y gallai'r agweddau ariannol ar ffioedd cofrestrwyr yn ogystal â ffioedd i weinyddion ddylanwadu ar y dewis o seremoni gan y rhai sy'n wynebu cyfyngiadau ariannol.

Codwyd hygyrchedd ar gyfer unigolion anabl neu rai gydag anawsterau symudedd fel pryder hefyd ar gyfer seremonïau yn yr awyr agored, yn enwedig mewn lleoliadau gyda thiroedd helaeth. Pwysleisiwyd bod llwybrau i'r rhai sydd mewn cadeiriau olwyn neu sy'n defnyddio cymhorthion cerdded yn bwysig. Cyfeiriwyd at ystyriaethau iechyd a diogelwch hefyd. Fodd bynnag, nodwyd y gall yr un materion godi gyda seremonïau a lleoliadau dan do hefyd, a'u bod yn aml yn codi.

Gofynnodd ymatebwyr eraill am fwy o hyblygrwydd ar gyfer gwasanaethau crefyddol, gan nodi bod gan wasanaethau heb fod yn rhai crefyddol ar hyn o bryd fantais benodol o ran nifer y lleoliadau sydd ar gael ar gyfer seremonïau. Nodwyd y byddai'r posibilrwydd o ymestyn darpariaethau i seremonïau crefyddol yn helpu i leihau'r anghydraddoldeb sy'n bodoli ar hyn o bryd. Ar ben hynny, ystyriwyd bod y cynigion yn cynyddu'r opsiynau ar gyfer cyplau LGBT neu gyplau o'r un rhyw na fyddai efallai'n teimlo'n gyfforddus yn priodi mewn lleoliad crefyddol, neu'n teimlo na allent wneud hynny.

Er bod y ddogfen ymgynghori ar gael yn Gymraeg, nododd un ymatebydd siom nad oedd yn ymddangos bod modd ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein yn Gymraeg.

Yn olaf, honnai chwech o ymatebwyr unigol a nododd eu bod yn ddyneiddwyr bod y diwygiadau arfaethedig, yn enwedig y diwygiadau mewn perthynas â'r gorchymyn diwygio deddfwriaethol i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored, yn gwahaniaethu yn erbyn eu credoau fel Dyneiddwyr, gan na fyddai cydnabyddiaeth gyfreithiol yn dal i fod i seremonïau Dyneiddiol.[3] Teimlent hefyd fod y gwahaniaethu a achosir o beidio â chaniatáu priodasau sy'n cael eu cydnabod yn gyfreithiol yn ôl credoau dyneiddiol yn fwy difrifol i bobl LGBT, gan honni bod tebygolrwydd anghymesur eu bod yn anghrefyddol ac yn ddyneiddwyr. Roeddent felly'n teimlo fod y diffyg dewis a roddwyd i bobl sy'n dymuno

priodi â rhywun o'r un rhyw yn fwy dwys nag i bobl sy'n dymuno priodi â rhywun o wahanol ryw.

---

# Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

## Asesiad Effaith

Cyhoeddwyd Asesiad Cychwynnol o'r Effaith law yn llaw â'r ddogfen ymgynghori. Mae'n nodi'r effaith amcangyfrifedig y byddai'r cynigion yn ei chael pe baent yn cael eu rhoi ar waith, ac mae hyn bellach wedi cael ei ddiweddaru ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'n nodi bod y mesurau a gynigir yn y papur hwn yn debygol o effeithio ar leoliadau priodasau a phartneriaethau sifil sydd â mannau addas yn yr awyr agored ar eu safle, cyrff crefyddol sy'n gweinyddu priodasau, a pherchnogion neu ymddiriedolwyr adeiladau a gofrestrwyd fel mannau addoli. Nid yw wedi bod yn bosibl mesur gwerth ariannol effeithiau'r cynigion a gyflwynwyd.

## Cydraddoldeb

Cyhoeddwyd Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb law yn llaw â'r ddogfen ymgynghori. Yn ein dadansoddiad o'r holl ymatebion, nid ydym yn credu y bydd y cynigion i barhau i ddarparu priodasau sifil a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored yn arwain at wahaniaethu uniongyrchol, gan nad ydynt yn arwain at drin pobl yn llai ffafriol oherwydd unrhyw nodwedd warchodedig. Diweddarwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar sail gwybodaeth ychwanegol a roddwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, gan gynnwys y pryderon a godwyd gan ymatebwyr dyneiddiol.

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Nododd un ymateb, er y darparwyd y ddogfen ymgynghori yn Gymraeg ar y porth ar-lein, nad oedd opsiwn i ddarparu ymatebion i'r ymgynghoriad yn Gymraeg ar-lein. Er na nodwyd yn benodol nad oedd modd darparu ymatebion i gwestiynau unigol yn Gymraeg, gellid bod wedi darparu mwy o eglurder yn y maes hwn.

Bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r fersiwn Saesneg, gan adlewyrchu'r broses a ddilynwyd wrth ryddhau'r ddogfen ymgynghori.

Rydym yn croesawu ymatebion i ymgynghoriadau yn Gymraeg, a byddwn yn nodi'n glir yn y dyfodol ein bod yn croesawu ymatebion yn Gymraeg.

# Casgliad a'r camau nesaf

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ofalus. Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr o blaid parhau i ddarparu priodasau sifil a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored, felly mae'n parhau i fod yn fwriad gan y Llywodraeth i wneud OS amhenodol arall pan ddaw'r OS seremonïau sifil dros dro i ben ar 5 Ebrill 2022. Bydd y diwygiadau i Reoliad Priodasau a Phartneriaeth Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005 a wneir gan yr OS pellach hwn yn sylweddol debyg i'r rhai a wnaed gan yr OS dros dro, ac eithrio rhai newidiadau allweddol sy'n cael eu trafod isod.

Roedd ymatebwyr hefyd o blaid y cynnig i ymestyn y ddarpariaeth o seremonïau yn yr awyr agored i briodasau crefyddol, ar sail ganiataol drwy Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol. Gan hynny, bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r cynigion hyn.

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried y nifer fawr o ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd gan unigolion a oedd yn rhannu credoau dyneiddiol. Roedd yr ymatebion hynny'n glir yn eu cefnogaeth i'r cynnig i barhau i ddarparu seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored ac i ymestyn darpariaeth debyg mewn perthynas â phriodasau crefyddol drwy orchymyn diwygio deddfwriaethol.

Yn ogystal â mynegi cefnogaeth i'r cynigion, fodd bynnag, nododd ymatebwyr sy'n rhannu credoau Dyneiddiol yn glir iawn eu bod yn dymuno i'r Llywodraeth hefyd ymestyn cydnabyddiaeth gyfreithiol i briodasau Dyneiddiol. .

Mae'r Llywodraeth yn dal wedi ymrwymo i ystyried diwygio pellach a mwy sylfaenol yn y maes hwn ar ôl i adroddiad Comisiwn y Gyfraith gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022, a fydd yn cynnwys argymhellion manwl ar gyfer cynllun diwygiedig ar gyfer priodasau a fydd yn deg i bob grŵp. Rydym yn disgwyl i'r adroddiad gynnwys cynigion a fyddai'n dileu'r cysylltiad rhwng priodasau a'r adeiladau lle gellir eu gweinyddu ar hyn o bryd, gan gynnwys argymhellion ar gyfer rhwymo fframwaith newydd mewn cyfraith a allai ganiatáu i briodasau gael eu cynnal gan sefydliadau â chred heb fod yn un grefyddol (fel Dyneiddwyr) a/neu weinyddion annibynnol. Bydd y Llywodraeth yn ystyried adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn ofalus ac yn penderfynu ar ddiwygiadau yn y dyfodol, gan gynnwys mewn perthynas â phriodasau dyneiddiol, gan ystyried yr argymhellion hynny.

### Offeryn Statudol Priodasau Sifil a Phartneriaethau Sifil

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn fodlon â'r modd roedd y newidiadau a gyflwynwyd gan yr OS seremonïau sifil dros dro yn gweithio'n ymarferol ac roedd ganddynt brofiadau

cadarnhaol o seremonïau yn yr awyr agored, a dywedodd llawer y byddent yn defnyddio'r opsiwn ar gyfer seremonïau awyr agored pe bai'r ddarpariaeth yn dod yn barhaol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon â'r cynigion ar gyfer y broses gymeradwyo[4], felly nid ydym yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau i'r darpariaethau hyn. Nid ydym chwaith yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau i'r amodau ar gyfer defnyddio ardaloedd awyr agored cysylltiedig ar gyfer seremonïau[5] gan fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon â'r rhain.

Rydyn ni'n cydnabod bod lleiafrif bach o ymatebwyr wedi gofyn am yr angen i gymeradwyo'r ardal awyr agored benodol lle byddai priodasau'n cael eu cynnal, ond credwn bod nifer yr ymatebwyr sy'n cefnogi parhau i dybio'n awtomatig bod ceisiadau'n cynnwys "ardaloedd awyr agored cysylltiedig" yn drech na'r rhain. Rydym hefyd wedi ystyried yn ofalus y nifer fach o sylwadau sy'n gofyn am archwiliadau ychwanegol gan awdurdodau lleol i sicrhau bod yr amodau wedi cael eu bodloni, ond nid ydym wedi cynnig unrhyw newidiadau i'r rhain.

Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r amod presennol sy'n cyfyngu ar werthu neu fwyta bwyd neu ddiodydd alcoholig cyn y seremoni. Gan fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi gofyn am gael cadw'r amod, bydd yr amod hwn hefyd yn cael ei gadw. Mae hyn oherwydd ein bod o'r farn y bydd yr amod yn helpu i sicrhau bod seremonïau'n aros yn weddus ac yn urddasol, yn adlewyrchu difrifoldeb yr achlysur ac yn helpu i sicrhau bod gan y cyplau eu galluedd meddyliol llawn wrth briodi (neu'n ei gwneud yn haws i'r cofrestrydd sylwi ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â galluedd). Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod angen mwy o eglurder ynghylch a yw'r amod hwn yn berthnasol i'r holl ardal awyr agored neu'r ardal gyfagos wrth ymyl y man lle mae'r seremoni'n cael ei chynnal. Felly, byddwn yn egluro effaith y cyfyngiad yn y dogfennau canllaw cysylltiedig er mwyn dangos yn glir ei fod ond yn berthnasol i'r ardal gyfagos i'r lleoliad lle cynhelir y seremoni, ac nid i'r ardal awyr agored gysylltiedig â'r adeilad cymeradwy yn ei chyfanrwydd.

Yn unol â chais nifer o ymatebwyr, byddwn hefyd yn egluro'r canllawiau mewn perthynas â'r mathau o strwythurau a ganiateir ar gyfer seremonïau yn yr awyr agored, a fydd, yn ein barn ni, yn helpu i ddileu unrhyw ansicrwydd ynghylch lle y gallid cynnal y seremoni os bydd tywydd gwael, er enghraifft.

[4] e.e. tybio'n awtomatig bod adeiladau sydd wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd yn cynnwys "ardaloedd awyr agored cysylltiedig", ac y byddai unrhyw gymeradwyaeth newydd ac adnewyddiad yn cynnwys ardaloedd awyr agored cysylltiedig yn awtomatig

[5] Gofyniad i sicrhau cadarnhad bod y lleoliad yn ymddangos yn weddus ac yn urddasol; Gofyniad bod modd adnabod y lleoliad yn ôl y disgrifiad; Gofyniad i arddangos hysbysiad addas gyda gwybodaeth benodol; Cyfyngiadau'n ymwneud â bwyta a gwerthu bwyd a diod

Er mwyn mynd i'r afael â phryderon ymatebwyr ynghylch defnyddio pebyll ac ym mha strwythurau y gellid cynnal seremoni 'awyr agored', byddwn yn diwygio'r diffiniad o "ardaloedd awyr agored cysylltiedig" fel y bydd yn golygu'r ardaloedd hynny o fewn ffin y tir nad ydynt yn "safleoedd adeiledig". Mewn geiriau eraill, bydd y ddau ddiffiniad yn annibynnol ar ei gilydd. Mae hyn yn golygu y bydd modd defnyddio strwythurau lled-barhaol neu strwythurau eraill yn yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig sy'n agored yn rhannol neu'n llawn ar yr ochrau, fel mewn pebyll, ar gyfer seremonïau yn yr awyr agored. Bydd y newid hwn mewn diffiniad hefyd yn cael ei egluro mewn canllawiau ar gyfer lleoliadau a chofrestryddion.

Bydd diwygiadau technegol a mân ddiwygiadau nad ydynt yn cynrychioli newid mewn polisi hefyd yn cael eu gwneud i gynnwys yr Offeryn Statudol.

## Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol Priodasau Awyr Agored Crefyddol

Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr o blaid y cynnig i ymestyn y ddarpariaeth o seremonïau yn yr awyr agored i briodasau crefyddol, ar sail caniataol. Gan hynny, bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r cynigion hyn pan fydd amser deddfwriaethol ar gael.

Roedd cefnogaeth unfrydol bron i gynigion y Llywodraeth ynghylch y broses gymeradwyo,[6] felly bwriad y Llywodraeth o hyd yw cyflwyno hyn.

Roedd grwpiau crefyddol a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig. Fodd bynnag, nododd rhai y byddent yn awyddus i gael dealltwriaeth fanylach o sut byddai'r cynnig yn gweithio'n ymarferol, a chael sicrwydd y bydd y darpariaethau'n parhau i fod yn rhai caniataol.

Gan hynny, byddwn yn ymgysylltu'n ychwanegol â rhanddeiliaid gyda chyrff crefyddol a mannau addoli, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda nhw wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

## Argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio

[6] i dybio bod eglwysi a chapeli Eglwys Lloegr a'r Eglwys yng Nghymru, i gynnwys yn awtomatig eu tiroedd yn yr awyr agored, fel y gellir gweinyddu priodasau ar y seiliau os yw'r corff crefyddol priodol yn caniatáu hynny, i dybio cofrestriadau presennol mannau addoli ar gyfer ffyddau eraill (heblaw ffydd Iddewig a'r Crynwyr) yn cynnwys yn awtomatig eu tir awyr agored fel y gellir gweinyddu priodasau ar y tir hwn os yw'r corff crefyddol priodol yn caniatáu hynny, ac y byddai unrhyw gais newydd i gofrestru mannau addoli yn ymestyn yn awtomatig i'r tir awyr agored, ond y dylai deiliaid tai ardystio eu bod yn dymuno i'r cofrestriad ymestyn i'r tir awyr agored, ac y dylai cydsyniadau gan awdurdodau llywodraethu perthnasol ymestyn hefyd i'r tir awyr agored.

Ym mis Gorffennaf 2019, gofynnodd y Llywodraeth i Gomisiwn y Gyfraith ddarparu argymhellion ar gyfer cyfraith priodas ddiwygiedig a oedd yn caniatáu mwy o ddewis o fewn strwythur cyfreithiol syml, teg a chyson. Mae'n gyfraith a ychwanegwyd ati dros sawl canrif heb unrhyw ddiwygio systematig.

Rydym wedi ystyried yn ofalus y nifer fawr o ymatebion gan ddyneiddwyr o blaid darparu ar gyfer priodas Ddyneiddiol a gydnabyddir yn gyfreithiol yn syth, yn ogystal â'r cynigion a drafodir yn yr ymateb hwn. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo o hyd i ystyried yn ofalus yr achos dros ddiwygio cyfraith priodas yn fwy cynhwysfawr a sylfaenol ar ôl i Gomisiwn y Gyfraith gwblhau ei adolygiad o'r gyfraith yn y maes hwn, a byddwn yn ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ofalus pan gyhoeddir yr adroddiad terfynol.Bydd adroddiad Comisiwn y Gyfraith, a ddisgwylir ym mis Gorffennaf 2022, yn cynnwys argymhellion ar gyfer diwygio. Mae'r dewisiadau a ystyriwyd, ac a gafodd eu cynnwys dros dro yn ei ymgynghoriad ym mis Medi 2020, yn cynnwys cynnig mwy o hyblygrwydd i gyplau ffurfio eu seremonïau eu hunain, caniatáu i'r seremoni gael ei chynnal mewn amrywiaeth ehangach o leoliadau a darparu fframwaith a allai ganiatáu i sefydliadau â chred heb fod yn un grefyddol (fel Dyneiddwyr) a/neu weinyddion annibynnol gynnal priodasau sy'n rhwymo'n gyfreithiol.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod ymdrechion parhaus a hirdymor Dyneiddwyr y Deyrnas Unedig, a phryderon cyplau sy'n rhannu credoau dyneiddiol, i sicrhau darpariaeth ar gyfer seremonïau priodas sy'n cael eu cydnabod yn gyfreithiol, boed hynny dan do neu yn yr awyr agored. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo o hyd i ystyried yr achos dros ddiwygio cyfraith priodas yn fwy cynhwysfawr, a bydd yn penderfynu a ddylid gwneud darpariaeth (a sut i wneud hynny) ar gyfer priodas ddyneiddiol a gydnabyddir yn gyfreithiol unwaith y bydd Comisiwn y Gyfraith wedi cwblhau ei adolygiad sylfaenol ac unwaith y bydd y Llywodraeth wedi ystyried ei holl argymhellion yn ofalus.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae’r egwyddorion sydd i’w mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa’r Cabinet 2018:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

# Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

## Sefydliadau

Alkincoats Ltd

Alpheton Hall Barns

Aoic

Cymdeithas y Gweinyddion Annibynnol

Lleoliad Priodasau Bartholomew Barn

Lleoliad Priodasau Batemans Barn

Gwasanaeth Cofrestru Caerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf

Bc Bespoke Ceremonies

Cyngor Dinas Birmingham

Cyngor Bournemouth, Christchurch a Poole

Cyngor Dosbarth Metropolitanaidd Bradford

Bridebook

Cyngor Dinas Bryste

Gwasanaeth Cofrestru Swydd Buckingham

Cadhay

Cardiff University

Esgobion Catholig Cymru a Lloegr

Celtic Minor Ltd

Cyngor Canol Swydd Bedford

Yr Eglwys yng Nghymru

Eglwys Loegr

Corfforaeth Dinas Llundain

Civil Seremonies Ltd

Claire Lawrence (Gweinydd)

Clifford Barton Weddings

Colehayes Park

Cyfrinachol

Cyngor Sir

Cyngor Sir Swydd Derby

Gwasanaeth Cofrestru Dyfnaint

Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Doncaster

Cyngor Dorset

Cyngor East Riding Swydd Efrog

Cyngor Sir Dwyrain Sussex

Elite Events Hire

Escot Estate

Cyngor Sir Essex

Gwasanaeth Cofrestru Essex

Ever After

Cymdeithas y Gweinyddion Proffesiynol

Gwasanaeth Cofrestru Sir y Fflint / Cyngor Sir y Fflint

FOIC (Cymdeithas y Gweinyddion Annibynnol)

Forest Edge Tipis

Cynulliad Cyffredinol Eglwysi Unedig ac Eglwysi Cristnogol Rhydd

Gidleigh Park

Glebe House Cottages Ltd

Guides for Brides Ltd

Hale Park

Swyddfa Gofrestru Haringey

Historic Houses

Historic Royal Palaces

Gwesty

Humanists UK

Huntsmill Farm

Gweinydd Annibynnol

Jess May's Special Days

Kennaway House

Cyngor Tref Kingsbridge

Sefydliad Ymchwil Ar-lein Krishna

Cyngor Sir Swydd Gaerhirfryn ond ar ran y Panel Cofrestru Cenedlaethol a Rhwydwaith Rheolwyr Cofrestru Rhanbarthol Gogledd Orllewin Lloegr

Lanwades Hall Llp

Gwasanaeth Cofrestru Swydd Gaerlŷr

Leweston School/Enterprise

Awdurdod Lleol

Llywodraeth Leol

Lympne Castle

Mary Harboe Celebrants

Michelle Taylor (Gweinydd)

Millbrook Estate

Cyngor Milton Keynes

Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol

GIG

Cyngor Sir Northumberland

Cyngor Dinas Nottingham

Owlpen Manor Estate

Gwasanaeth Cofrestru Swydd Rhydychen

Plwyf High Halstow ac Allhallows gyda St Mary Hoo

Plwyf De Gillingham (Esgobaeth Rochester, Eglwys Loegr)

Port Waterhouse

Powellslaw

Pynes House

Y Crynwyr ym Mhrydain

Serb – Bwrdd Cofrestru De Ddwyrain Lloegr

Ymddiriedolaeth Sharpham

Sheepdrove Organic Farm - Lleoliad Priodasau

Swyddfa Gofrestru Sheffield

Eglwys URC Southernhay

Strategic Art Ltd

Cyngor Telford a Wrekin

Cyngor Archesgobion Eglwys Loegr

Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr

The Barn at Cott Farm

The Coombe Farm Trust - (Middle Coombe Farm - Lleoliad Priodasau)

The Country Celebrant

The International Family Law Group Llp

The Lamb Inn at Sandford

The Plough Inn

The Wedding Barn at Gwaenynog Farmhouse

The Wedding Owl

The White Rose Celebrant

Cyngor Bro Morgannwg

Valleyside Barn & Escapes

Vows That Wow

Cyngor Wakefield

Cyngor Sir Swydd Warwick

Gwasanaeth Cofrestru Swydd Warwick

Busnes Priodas

Y Comisiwn Gweinyddu Priodasau

Lleoliad Priodasau

Cyngor Sir Gorllewin Sussex

Wick Farm, Caerfaddon

Cyngor Wigan

Cyngor Tref Wimborne Minster

Winckworth Sherwood Llp

## Unigolion[7]

Alissa A Kindred

Amber Beth Dalton

Anastasia Symecko

Anna Jobling

Carina Berry

Clare Taylor

David Pollock

Desi Reed

Genevra Pope

Glenn Mayes

Hannah Wightman

Jessica K Dumbreck

Julie Toogood

Kelly Hawes

Laura Chapman

Lily Harrison

Michelle Jones

Miranda Ash

Ms Nikki J Greenway

Nick Moore

Rachael Arundell

Rachel Morgan

---

Os na nodwyd enw mudiad neu os nad oedd yr ateb yn cynrychioli barn sefydliad

Rebecca

Roger Salmon

Sarah Lurcock

Shelley Bell (Gweinydd)

Stephanie Wiggans

Suzie

Y Parch Dr Richard Cleaves

Will H

## Yn ôl nodwedd warchodedig[8]

| Nodweddion | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| **Oedran** | 17 |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | 26 |
| **Crefydd neu Gred** | 23 |
| **Anabledd** | 11 |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | 4 |
| **Rhyw** | 11 |
| **Ailbennu rhywedd** | 2 |
| **Hil** | 6 |

[8] O'r 204 o ymatebion a gafwyd, mae'r tabl hwn yn dangos nifer yr ymatebwyr a nododd fod ganddynt bob un o'r naw nodwedd warchodedig a ganlyn fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb (2010). Sylwch y gall rhai unigolion ddweud bod ganddynt fwy nag un nodwedd warchodedig, felly gellir eu cyfrif mewn mwy nag un grŵp at ddibenion yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | 13 |

**© Hawlfraint y Goron 2019**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint.

Mae’r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i outdoorweddings@justice.gov.uk